

Goblygiadau ariannol y Bil Amaethyddiaeth (Cymru)

Ionawr 2023



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddCyllid

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddCyllid](https://twitter.com/SeneddCyllid)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Goblygiadau ariannol y Bil Amaethyddiaeth (Cymru)

Ionawr 2023



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddCyllid

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
Peredur Owen Griffiths AS
Plaid Cymru



Peter Fox AS
Ceidwadwyr Cymreig



Mike Hedges AS
Llafur Cymru



Rhianon Passmore AS
Llafur Cymru

Cynnwys

Casgliadau ac Argymhellion	5
1. Cyflwyniad.....	7
2. Diben y Bil a’r angen amdano	9
Cefndir	9
Crynodeb o'r costau	9
Cynllun Rheoli Tir Cynaliadwy yn y Dyfodol	12
Costau heb eu meintoli	14
Safbwynt y Pwyllgor	19

Casgliadau ac Argymhellion

Casgliad 1. O ganlyniad, mae'r diffyg gwybodaeth yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwneud yn anodd i'r Pwyllgor asesu cyfanswm costau'r Bil. Rydym yn ailadrodd galwadau blaenorol bod yn rhaid i Asesiadau Effaith Rheoleiddiol gynnwys yr amcangyfrif gorau posibl ar gyfer costau a manteision i'n galluogi i graffu'n llawn ar oblygiadau ariannol cyffredinol Bil.
..... Tudalen 19

Casgliad 2. Mae'r Pwyllgor yn fodlon, ar y cyfan, ar oblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Os bydd newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, o ganlyniad i'r argymhellion a weir yn yr adroddiad hwn, mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor am drafod y newidiadau hynny'n fanylach. Tudalen 19

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell, yn unol â'r materion a godwyd yn ei lythyrau at y Prif Weinidog ar 16 Tachwedd a 19 Rhagfyr 2022, fod y Gweinidog yn ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad hwn, cyn y ddatl Cyfnod 1. Tudalen 20

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu dadansoddiad o'r costau sydd wedi'u cynnwys yn Opsiwn 3 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n ymwneud â chyllid cynllun datblygu gwledig, ac y caiff y wybodaeth hon ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddarau yn dilyn trafodion Cyfnod 2. Tudalen 21

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn ymgymryd â gwaith modelu i amcangyfrif cost flynyddol y cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy sy'n dibynnu ar y nifer wahanol sy'n cymryd rhan yn ôl mathau gwahanol o ffermydd, ac y caiff y wybodaeth hon ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddarau yn dilyn trafodion Cyfnod 2.
..... Tudalen 21

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn ailasesu'r costau heb eu meintoli, ac yn defnyddio profiad blaenorol i ddarparu dadansoddiad sensitifrwydd i ddangos yr ystod bosibl o gostau, ac y caiff y wybodaeth hon ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddarau yn dilyn trafodion Cyfnod 2. Tudalen 22

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd y Senedd yn cael cyfle i graffu ar yr Asesiad Effaith Economaidd a chyflwyno ei barn.
..... Tudalen 22

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith i asesu'r gost i'r sector preifat sy'n ymwneud â choedwigaeth ac yn darparu dadansoddiad sensitifrwydd i ddangos yr ystod bosibl o gostau, ac y caiff y wybodaeth hon ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddarau yn dilyn trafodion Cyfnod 2..... Tudalen 23

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell, fel rhan o'r adolygiad ôl-weithredu, fod y Gweinidog yn meintioli'r manteision sy'n codi o'r Bil..... Tudalen 23

Argymhelliad 8. Lle y bo'n bosibl, dylid cael synergedd rhwng y system TG bresennol a'r un newydd a gaiff ei datblygu i gefnogi ceisiadau ar-lein a rheoli contractau o dan y Bil. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn rhoi rhagor o fanylion am gostau'r system ar ôl i'r asesiad o'r opsiynau gael ei gwblhau, ac y caiff y wybodaeth hon ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddarau yn dilyn trafodion Cyfnod 2..... Tudalen 23

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod proses ymgeisio'r cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy i ffermwyr neu fusnesau fferm yn hawdd ei defnyddio ac yn lleihau'r adnoddau sydd eu hangen i wneud cais am y rhaglen drwy gysyniadau megis gwybodaeth wedi'i llenwi ymlaen llaw..... Tudalen 24

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog roi eglurhad mewn perthynas â'r £2.8 miliwn mewn costau ychwanegol a ysgwyddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac a fydd cyllid ychwanegol ar gael gan Lywodraeth Cymru neu a ddisgwylir i Cyfoeth Naturiol Cymru amsugno'r costau hyn yn ei gyllideb bresennol. Tudalen 24

1. Cyflwyniad

1. Cyflwynwyd y Bil Amaethyddiaeth (Cymru)¹ (y Bil) a'r Memorandwm Esboniadol², gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gan Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd (y Gweinidog) ar 26 Medi 2022.
2. Ar 27 Medi 2022, gwnaeth y Gweinidog ddatganiad rhagarweiniol ar y Bil yn y Cyfarfod Llawn³.
3. Mae'r Bil yn ceisio:
 - caniatáu i Weinidogion Cymru barhau i wneud taliadau cymorth amaethyddol i ffermwyr yn ystod cyfnod pontio.⁴
 - diwygio Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 i ddarparu llwybr i denantiaid ar gyfer datrys anghydfodau o dan rai amgylchiadau.⁵
 - disodli'r pwerau ag iddynt derfyn amser a roddir i Weinidogion Cymru yn Neddf Amaethyddiaeth (AA) 2020, Atodlen 5, sy'n dod i ben ym mis Rhagfyr 2024.⁶
 - diwygio Deddf Coedwigaeth 1967⁷ i roi'r pŵer i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ychwanegu amodau i ddiwygio, atal neu ddirymu trwyddedau cwmpo er mwyn atal gwaith cwmpo coed a fyddai'n mynd yn groes i ddeddfwriaeth amgylcheddol arall.
 - darparu ar gyfer gwahardd Maglau a Thrapiau Glud.
4. Clywodd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) dystiolaeth am oblygiadau ariannol y Bil ar 9 Tachwedd 2022⁸, gan:
 - Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
 - James Owen, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Diwygio Maes Rheoli Tir, Llywodraeth Cymru

¹ Llywodraeth Cymru, [Bil Amaethyddiaeth \(Cymru\)](#)

² Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Esboniadol](#)

³ [Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 26 Medi 2022](#)

⁴ Llywodraeth Cymru, [Cynllun Ffermio Cynaliadwy, tudalen 64](#)

⁵ [Deddf Daliadau Amaethyddol 1986](#)

⁶ [Deddf Daliadau Amaethyddol 1986, Atodlen 5](#)

⁷ [Deddf Coedwigaeth 1967](#)

⁸ [Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022](#)

- Simon Bilsborough, Uned Diwygio Maes Rheoli Tir, Llywodraeth Cymru

5. Gwnaed gwaith craffu polisi ar y Bil gan Bwyllgor yr Economi, Masnach, a Materion Gwledig.⁹

6. Trafododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Bil yn unol â materion sy'n dod o fewn ei gylch gorchwyl.¹⁰

⁹ Pwyllgor yr Economi, Masnach, a Materion Gwledig

¹⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2. Diben y Bil a'r angen amdano

Cefndir

7. Roedd gadael yr UE yn golygu gadael y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC)¹¹. Er mwyn caniatáu i daliadau barhau i ffermwyr ar ôl 2020, rhoddodd y Senedd gydsyniad¹² i Ddeddf Amaethyddiaeth y DU 2020¹³ ('Deddf Amaethyddiaeth y DU') gynnal y system PAC (a'i haddasu) yng Nghymru. Mae hyn wedi cadw'r status quo i raddau helaeth cyn trosglwyddo i gynlluniau'r dyfodol¹⁴. Nid yw Deddf Amaethyddiaeth y DU yn cynnwys pwerau ar gyfer cynlluniau cymorth newydd i Gymru.

8. Mae hefyd yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol; wrth gasglu a rhannu data; o ran safonau marchnata a dosbarthu carcasau; a diogelu data. Pwerau trosiannol yw'r rhain, a gynhwysir yn Atodlen 5¹⁵ o Ddeddf Amaethyddiaeth y DU, yn ddarostyngedig i gymal machlud, a byddant yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2024.

9. Mae'r Bil yn sefydlu pwerau galluogi lefel uchel i Weinidogion Cymru. Mae'n disodli Atodlen 5 o Ddeddf Amaethyddiaeth y DU ac yn darparu pwerau ar gyfer cynllun cymorth amaethyddol newydd, gan ganiatáu trosglwyddo o'r PAC.¹⁶

10. Mae'r Bil yn gwneud darpariaethau ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy a chymorth ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru, neu mewn cysylltiad ag amaethyddiaeth yng Nghymru.¹⁷

Crynodeb o'r costau

11. Mae'r costau a gynhwysir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'u hasesu rhwng 2022 a 2050. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dangos mai tua £9.1 biliwn yw cyfanswm cost y Bil dros y cyfnod arfarnu.¹⁸

12. Mae'r costau mwyaf sylweddol a gynhwysir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ymwneud â thaliadau blynyddol tybiedig Llywodraeth Cymru i ffermwyr, sef £278 miliwn dan y cynllun

¹¹ [Comisiwn Ewropeaidd: Polisi Amaethyddol Cyffredin](#)

¹² [Y Bumed Senedd: Y Cyfarfod Llawn, 29 Medi 2020](#)

¹³ [Deddf Amaethyddol 2020](#)

¹⁴ [Ymchwil y Senedd: Cymorth Amaethyddol, Papur briffio Ymchwil y Senedd](#)

¹⁵ [Deddf Amaethyddiaeth 2020, Atodlen 5](#)

¹⁶ Memorandwm Esboniadol, tudalen 6

¹⁷ Memorandwm Esboniadol, tudalen 6

¹⁸ Memorandwm Esboniadol, tudalen 103

Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn tynnu sylw nad yw Llywodraeth Cymru eto mewn sefyllfa i nodi'r taliadau gwirioneddol dan y cynllun hwn gan na fydd ei ddyluniad yn cael ei gwblhau tan 2023.¹⁹

13. Tabl 1. Costau sy'n gysylltiedig â'r Bil Amaethyddiaeth (Cymru) rhwng 2022 a 2050

Disgrifiad o'r gost	Cost (£000)
Costau gweinyddol	
Costau trosiannol	36,258
Costau rheolaidd	891,877
Cyfanswm y costau	928,134
Costau cydymffurfio	
Costau rheolaidd	2,709
Costau eraill	
Costau rheolaidd	8,169,657
Cyfanswm costau'r Bil	9,100,500

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, **Memorandwm Esboniadol**, Bil Amaethyddiaeth (Cymru), Medi 2022

14. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi mai'r opsiwn a ffefrir²⁰ yw cyflwyno cymorth sy'n gyson â'r cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Mae'n tynnu sylw nad yw'r lefelau cyllid na'r effaith ar y diwydiant wedi'u meintoli eto ond, at ddiben y dadansoddiad hwn, y dybiaeth yw y cynhelir cyllideb flynyddol £278 miliwn²¹ mewn termau real dros y cyfnod arfarnu.

15. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog pa ystyriaeth roedd wedi'i rhoi i allu'r Pwyllgor i graffu ar oblygiadau ariannol y Bil hwn o gofio nad yw dyluniad y cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn y dyfodol, sy'n cynrychioli'r costau mwyaf arwyddocaol yn y Bil, wedi'i gwblhau. Dywedodd y Gweinidog y canlynol:

"So, what this RIA does is set out indicative costs of a future scheme that meets the requirements of sustainable land management and the targets that have been committed to by the Welsh Government. With regard to the

¹⁹ Memorandwm Esboniadol, tudalen 91

²⁰ Memorandwm Esboniadol, tudalen 122

²¹ Memorandwm Esboniadol, tudalen 107

*future SLM scheme, the RIA estimates the costs in a variety of areas—there are about six areas where that is, and those are the administrative cost to the Welsh Government, the compliance costs, the estimated costs of annual payments to farmers, the estimated costs of Farming Connect and the farm liaison service, estimated costs to Natural Resources Wales, and the estimated cost to the agricultural sector for those that want to enter the proposed scheme. So, that's a comprehensive account of the likely costs."*²²

16. O ran cost amcangyfrifedig taliadau blynyddol i ffermwyr, dywedodd y Gweinidog ei bod wedi tybio £278 miliwn yn seiliedig ar yr hyn sydd gan Lywodraeth Cymru nawr ar gyfer y cynllun taliad sylfaenol a Glastir (heb gynnwys cyllid y cynllun datblygu gwledig). Cadarnhaodd swyddog y Gweinidog y tybiwyd y llinell sylfaen £278 miliwn ar gyfer yr holl opsiynau a amlinellwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol fel rhan o'r dadansoddiad cost a budd.

17. Fodd bynnag, clywodd Pwyllgor yr Economi, Masnach, a Materion Gwledig mai tua £370 miliwn y flwyddyn yw'r cyllid drwy PAC i Gymru, o gynnwys cyllideb colofn 2 y cynllun datblygu gwledig a chyllid cyfatebol Llywodraeth Cymru. Gofynnodd y Pwyllgor pam nad oedd ffigur y cynllun datblygu gwledig (tua £100 miliwn) wedi'i gynnwys yn y gyllideb flynyddol dybiedig. Dywedodd swyddog y Gweinidog:

*"So, what we've tried to do in the cost-benefit analysis is look at the support that is provided directly to farmers. So, the £100 million, for shorthand purposes, that is looking often beyond the farm gate. So, for example, that would pay for the Farming Connect service—so, that would be advisory support that would go through Farming Connect, which supports farmers to do various things, continuous professional development and so on and so forth, but wouldn't be a direct payment to farmers—."*²³

18. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod y gyllideb flynyddol dybiedig £278 miliwn yn ddibynnol ar setliadau cyllid yn y dyfodol gan Drysorlys EF a phroses gyllideb Llywodraeth Cymru. Gwnaeth y Gweinidog ymrwymiad na fyddai'n cymryd arian oddi ar ffermwyr.²⁴ Fodd bynnag, nododd y canlynol:

²² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 11

²³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 143

²⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 14

*"the biggest risk to future funding of our agricultural sector in Wales is the UK Government's budget to the Welsh Government, and therefore, obviously, what we have here in the Welsh Government budget."*²⁵

19. Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi cael llawer o drafferth ymgysylltu â Thrysorlys EF a bod Trysorlys EF wedi'i wahodd, dros y chwe blynedd diwethaf, i gyfarfodydd y grŵp rhyngweinidogol sy'n cynnwys Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), a Gweinidogion o'r Llywodraethau datganoledig:

*"...On no occasion has a Minister come, apart from once when we had a finance Minister dial into the meeting, and this was before people dialled into meetings—way, way before the COVID pandemic. So, it's been really, really difficult for me to engage with HM Treasury."*²⁶

20. Fodd bynnag, cadarnhaodd fod cyfarfod y grŵp rhyngweinidogol wedi'i gynnal ar 7 Tachwedd â Thérèse Coffey AS, Ysgrifennydd Gwladol newydd DEFRA. Ychwanegodd y canlynol:

*"...she wanted to meet as quickly as possible, which I think was a really good sign, because we hadn't met with the previous one, who'd been in post for, what, six or seven weeks, so there'd been no engagement at all. So, it was good that we had that meeting early. So, we didn't really focus on finance, but we'll be meeting again, hopefully before Christmas, when that will be on the agenda."*²⁷

21. Cydnabu'r Gweinidog fod y cyllid presennol wedi'i glustnodi tan ddiwedd tymor seneddol Llywodraeth y DU. Dywedodd y canlynol:

*"And this is why we need to build a lot of evidence, for me to make the argument to continue to support farmers around the Cabinet table"*²⁸

Cynllun Rheoli Tir Cynaliadwy yn y Dyfodol

22. Dywedodd y Gweinidog fod y cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy wrthi'n cael ei gydlunio²⁹. Esboniodd fod manylion y cynllun wedi'u cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2022 fel bod modd

²⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 35

²⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 21

²⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 33

²⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 23

²⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 11

ymgysylltu â'r sector dros yr haf,³⁰ ac y bydd ymgynghoriad ar y cynllun terfynol y flwyddyn nesaf³¹. Cadarnhaodd ei swyddog y canlynol:

*"We've committed to publishing an economic analysis, alongside the final consultation on the scheme. So, that will be an analysis of the impact, essentially, on the sector of implementing an SLM scheme, as we've proposed, and consulting on that, essentially, at the same time as we consult on the final scheme. So, that will give us a robust base for the Minister, ultimately, to make a decision at some stage in 2024 about a future scheme."*³²

23. Dywedodd swyddog y Gweinidog y nododd y pecyn tystiolaeth diwethaf ar gyfer 'Amaethyddiaeth yng Nghymru' yn 2019³³ tua 24,000 o fusnesau fferm yng Nghymru. Cadarnhaodd fod ychydig dan 16,000 o ffermwyr yn cael taliad dan y cynllun taliad sylfaenol ar hyn o bryd, ac oddeutu 1,800 o ffermwyr drwy un o gynlluniau amaeth-amgylcheddol Glastir Llywodraeth Cymru. Dywedodd y canlynol:

*"...often, farms are very small holdings or have very small amounts of land, or are people who keep a small amount of animals, so they wouldn't be eligible for the current scheme. We are working through, as I said, the eligibility criteria for future schemes."*³⁴

24. Ailadroddodd y Gweinidog y pwynt hwn bod y cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn cael ei ddylunio fel y bydd pob ffermwr yn gymwys.³⁵

25. O ran hyrwyddo'r cynllun newydd, dywedodd swyddog y Gweinidog y canlynol:

*"We try and do everything we can to connect with farmers from a Government perspective. So, we obviously use the agricultural shows as a key vehicle for that. We work closely with the farming unions and other stakeholders who obviously have their members and they inform them of what's happening there. And we use all the usual media channels to try and connect with farmers."*³⁶

³⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 12

³¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 26

³² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 25

³³ [Llywodraeth Cymru: Amaethyddiaeth yng Nghymru, 2019](#)

³⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 153

³⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 152

³⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 155

26. Dywedodd y Gweinidog nad oedd wedi gosod targed ar gyfer faint o'r 24,000 o fusnesau fferm y mae'n disgwyl iddynt fod yn rhan o'r cynllun newydd. Ychwanegodd y canlynol:

"...we certainly wouldn't want to see less, and what we want to do is incentivise, and you're quite right: we are still in the stage of co-design."³⁷

27. Gofynnodd y Pwyllgor am fforddiadwyedd y cynllun pe bai 24,000 o fusnesau fferm yn rhan ohono ac a fyddai angen rhannu'r £278 miliwn â nifer y ffermwyr sy'n gwneud cais. Dywedodd swyddog y Gweinidog mai nod y cynllun newydd yw gwobrwyo ffermwyr am y camau y maent yn eu cymryd, felly bydd hynny'n wahanol ar gyfer ffermydd maint gwahanol.³⁸

28. Clywodd y Pwyllgor fod gwaith modelu'n cael ei wneud er mwyn:

"...look at the actions that are relevant to different categories of farm. We'll get a sense of what the take-up is in those different categories of farm, and the modelling then will also aggregate up the total costs. So, we'll get an estimated total annual cost to the farmers from the different levels of take-up in different farming types, and we can play around with the modelling according to the different packages of actions that come out of the co-design process."³⁹

Costau heb eu meintoli

29. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys nifer o gostau heb eu meintoli, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol, tenantiaethau amaethyddol, coedwigaeth, maglau a thrapiau glud.⁴⁰

30. Dywedodd y Gweinidog na fu'n bosibl meintoli'r costau disgwyliedig sy'n gysylltiedig â rhai o'r pwerau yn y Bil, am y rheswm a ganlyn:

"...we've got the crisis element of it; we don't know when a crisis will occur, what that crisis will be or what scale it will be, so, obviously, we can't plan expected costs in relation to that."

31. Ychwanegodd swyddog y Gweinidog y canlynol:

³⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 161

³⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 178

³⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 190

⁴⁰ Memorandwm Esboniadol, tudalen 108

"...it's such a range of different things that we're trying to potentially assess there—the difference between a significant animal health disease outbreak, like foot and mouth, as opposed to almost direct economic support because of a lack of a trade deal for farmers, makes it very difficult, I think, to give a good assessment to the committee of what those costs could be."⁴¹

32. Cytunodd y Gweinidog i roi gwybodaeth am gostau blaenorol a ysgwyddwyd o ganlyniad i ddefnyddio pwerau ymyrryd tebyg.⁴² Yn dilyn hynny, ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor gyda'r wybodaeth hon.⁴³

33. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y bydd yr effaith economaidd ar y sector yn cael ei hasesu fel rhan o waith dylunio cynllun yn y dyfodol. Gofynnodd y Pwyllgor sut y bydd yr asesiad yn cael ei gynnal. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn rhagweld y byddai'r asesiad yn amcangyfrif yr effaith economaidd ar lefel ranbarthol a sectoraidd.⁴⁴ Ychwanegodd ei swyddog y canlynol:

"...we have an excellent range of statistical sources concerning the performance and the viability of farms in Wales, so the work will be utilising data from the annual June agricultural survey, and also, the annual farm business survey. So, we have those data sources to support the analysis that's going to be carried out."⁴⁵

34. Cadarnhaodd y Gweinidog, pan gaiff yr ymgynghoriad ar y cynllun ei gyhoeddi y flwyddyn nesaf, y bydd y dadansoddiad economaidd terfynol yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr ag ef, yn ogystal ag ystod o dystiolaeth arall i ategu'r cynigion.⁴⁶

35. Mewn perthynas â monitro'r costau sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth ar ôl ei gweithredu, dywedodd y Gweinidog fod gofyniad monitro ac adrodd cynhwysfawr yn y Bil, gan gynnwys adroddiad ariannol blynyddol o'r cynlluniau sy'n gweithredu dan y pŵer i ddarparu cymorth, yn ogystal â dangosyddion a thargedau i fesur cynnydd yn erbyn y cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy.⁴⁷

⁴¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 54

⁴² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 58

⁴³ [Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 8 Rhagfyr 2022](#)

⁴⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 64

⁴⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 69

⁴⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 65

⁴⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraffau 71 a 73

36. Rhagwelir y byddai darpariaethau yn y Bil yn effeithio ar denantiaethau amaethyddol drwy gynyddu cyfanswm yr anghydfodau a fyddai'n codi. Cadarnhaodd swyddog y Gweinidog y canlynol:

"...the costs are included under the administrative provisions of the Bill because it was assumed to be the administrative costs of disputes, and the costs are estimated at between £86,000 and £167,000. It's really difficult to estimate on whom those costs will fall, whether it will be the landlord or the tenant, or a mixture of both because it will vary in individual cases."⁴⁸

37. Ychwanegodd y Gweinidog mai'r gobaith yw osgoi anghydfodau ond y byddai'n dibynnu ar y cytundeb tenantiaeth o ran pwy a fyddai'n ysgwyddo'r costau.⁴⁹

38. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi nad yw costau'r sector preifat sy'n ymwneud â choedwigaeth sy'n codi o ganlyniad i ychwanegu amodau at drwyddedau newydd wedi'u meintioli chwaith. Mewn ymateb i'r ffordd y mae'r Gweinidog wedi asesu effaith y costau posibl hyn ar y sector preifat, dywedodd y canlynol:

"We have a forestry provision stakeholder group, and the likely costs and benefits were identified working with that group. There were representatives of both forestry and conservation sectors on that group, and there were a number of unquantified costs that I think are already part of forestry and the way that that's worked; there's a UK forestry standard, and that's what all felling licences must comply with. Obviously, the actual cost of each application again will vary. So, some will be very simple, some will be very complex. You guessed the simple ones won't cost as much as the complex ones. So, we would expect Natural Resources Wales, who are obviously responsible for the felling licences, to use the power proportionately, and we have tried to estimate the costs, but, I think, to do all of them is just too complex."⁵⁰

Manteision sy'n codi o'r Bil

39. Mae ystod o fanteision wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n ymwneud â meysydd megis cymorth yn y dyfodol a choedwigaeth sydd heb eu meintioli. Gofynnodd y Pwyllgor pa waith oedd wedi'i wneud i geisio meintioli'r manteision sy'n codi o'r Bil.

⁴⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 81

⁴⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 83

⁵⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 91

40. Gan nad yw'r Bil yn diffinio mecanwaith darparu ar gyfer cymorth yn y dyfodol a bod y cynllun wrthi'n cael ei ddylunio, dywedodd y Gweinidog nad oedd asesiad meintiol o'r manteision yn bosibl ar y pryd. Ychwanegodd nad oedd opsiynau 1 a 2 a amlinellwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn gwneud y canlynol:

"...meet our statutory obligations under the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015. So, that's why option 3, which would require Welsh Ministers to consider the way future agricultural support schemes are contributing to achieving sustainable land management principles and objectives—. I referred to the status quo option, which just would not deliver; we have to do something differently."⁵¹

41. Rhoddodd swyddog y Gweinidog enghraifft o'r mathau o fanteision y byddant yn ceisio eu meintioli yn y cynllun terfynol:

"...there are a range of actions that we want to support farmers to undertake, which we believe will help them reduce their costs. So, nutrient management is a good example of that—so, supporting farmers to undertake good nutrient management on their soils to understand what's in them. There's a good source of evidence to say that can help with more targeted application, then, of nutrients, and therefore, particularly given the current pressures in that space, could help farmers reduce costs."⁵²

42. Mewn perthynas â'r system TG newydd gwerth £35.5 miliwn a fyddai'n cael ei datblygu ar gyfer ceisiadau ar-lein a rheoli contractau, dywedodd y Gweinidog ei bod wedi herio'r ffigur hwnnw, oherwydd ei fod yn ymddangos yn uchel iawn, ond ei bod yn credu ei fod yn asesiad realistig. Ychwanegodd y canlynol:

"...the preferred option is that we will enhance and build on the current system, and that's certainly what we are going to try and do. We will only develop new IT functions if we absolutely have to."⁵³

43. Dywedodd ei swyddog nad oedd yr asesiad o'r opsiynau wedi'i gwblhau eto, gan ddatgan y canlynol:

"So, I think the point the Minister made is absolutely right, it's about trying to build on what we've already got, not throwing the baby out with the bath

⁵¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 93

⁵² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 97

⁵³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 109

water here. But we're currently—. The current system was designed to do something very different to what we will need a new system to do. So, I think, in the RIA, what we've tried to do is articulate what we think some of those IT costs would be, but, of course, as we move through the options assessment and the business case for those, we'll have to consider those very carefully.”⁵⁴

44. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi mai tua £2.8 miliwn y flwyddyn yw'r cyfanswm costau ychwanegol a ysgwyddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth. Dywedodd y Gweinidog y canlynol:

“So, officials are, obviously, currently working with NRW to determine if there will be additional costs. Obviously, as we go through the co-design of the scheme and bring the Bill forward, I'll continue to work with the Minister for Climate Change, who has responsibility for NRW, to see what costs will need to be met. We want to support them, obviously, to implement the legislation, so we'll fully consider that as we go forward.”⁵⁵

45. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn datgan bod y gost i ffermwyr sy'n llenwi ffurflen gais ar gyfer yr opsiwn a ffefrir 50 y cant yn uwch nag opsiwn 2 oherwydd yr angen i ddarparu data sy'n ymwneud â chanlyniadau'r cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy megis cyflwr cynefinoedd neu ddefnydd carbon. Mewn perthynas â faint o adnoddau sydd eu hangen i ffermwyr ddarparu a monitro data o'r fath er mwyn sicrhau nad yw'r ffermydd llai, yn enwedig, yn cael eu rhwystro rhag gwneud cais am y cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

“Farmers already have a lot of data, and you don't want them to have to repeat it and repeat it and repeat it. So, I think part of the co-design of the sustainable farming scheme is using data that they already have, rather than making them fill in another form....we're trying to design the scheme to make sure that farmers want to be part of it and that they haven't got to do a huge amount of work.”⁵⁶

46. Gan ddarparu sicrwydd ychwanegol, ychwanegodd swyddog y Gweinidog y canlynol:

“...we already hold a good set of data around farm businesses, and Simon mentioned some of that. Ideally with the scheme, what we'd like to do is play that back to the farmer in the first instance for them to verify. So, rather than

⁵⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 113

⁵⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 122

⁵⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 124

them having to input, we say, 'This is what we think it is. Do you agree with that?', using the online system as a vehicle to do that.

I think the importance, again, about why we've estimated for this purpose the 50 per cent more expensive, is because it's a fundamental change of what we're asking farmers to do. We're proposing a sustainability review in the scheme, which will look at carbon assessments and look at habitat reviews as opposed to the basic information we ask them to provide now. Our assumption, I think, is that that would, over time, reduce because farmers would get used to doing it, and, of course, we would then hold the information to be able to play it back to them."⁵⁷

47. Dywedodd y Gweinidog fod Cyswllt Ffermio⁵⁸ wedi'i ailffocysu i sicrhau bod ffermwyr yn cael mynediad at gymorth gyda'r broses ymgeisio, boed hynny'n gymorth technegol neu'n gymorth cynghori.⁵⁹ Cadarnhaodd swyddog y Gweinidog fod cynnydd 50 y cant wedi'i amcangyfrif ar gyfer Cyswllt Ffermio a chynnydd 30 y cant ar gyfer y gwasanaeth cysylltwyr fferm.⁶⁰

Safbwynt y Pwyllgor

48. Er bod y Pwyllgor, ar y cyfan, yn fodlon ar oblygiadau ariannol y Bil hwn, mae gennym bryderon sylweddol ynghylch y diffyg gwybodaeth ariannol sydd ar gael yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n ymwneud â'r cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn y dyfodol, o gofio ei fod yn gost sylweddol ac na fydd yn cael ei gwblhau tan 2023. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn cynnwys nifer o gostau heb eu meintioli ac nid yw'n meintioli rhai o fanteision y Bil.

Casgliad 1. O ganlyniad, mae'r diffyg gwybodaeth yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwneud yn anodd i'r Pwyllgor asesu cyfanswm costau'r Bil. Rydym yn ailadrodd galwadau blaenorol bod yn rhaid i Asesiadau Effaith Rheoleiddiol gynnwys yr amcangyfrif gorau posibl ar gyfer costau a manteision i'n galluogi i graffu'n llawn ar oblygiadau ariannol cyffredinol Bil.

Casgliad 2. Mae'r Pwyllgor yn fodlon, ar y cyfan, ar oblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Os bydd newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, o

⁵⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraffau 127 a 128

⁵⁸ Busnes Cymru: [Cyswllt Ffermio](#)

⁵⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 133

⁶⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022, paragraff 137

ganlyniad i'r argymhellion a weir yn yr adroddiad hwn, mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor am drafod y newidiadau hynny'n fanylach.

49. Ar 16 Tachwedd, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Prif Weinidog o gofio ei gyfrifoldeb cyffredinol dros Raglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru, gan ofyn i'r Gweinidogion ddychwelyd i'r arfer yn y Bumed Senedd o ddarparu ymateb ysgrifenedig i adroddiad y Pwyllgor cyn i ddadl Cyfnod 1 gael ei chynnal a chyn ei bod yn ofynnol i'r Senedd gytuno ar Benderfyniad Ariannol.⁶¹

50. Ar 7 Rhagfyr, ymatebodd y Prif Weinidog i lythyr y Pwyllgor ond nid oedd yn gallu cytuno i gais y Pwyllgor.⁶² Anfonodd y Pwyllgor lythyr arall yn gofyn i'r Prif Weinidog ailystyried safbwynt Llywodraeth Cymru ar ddarparu ymateb ysgrifenedig cyn dadl cyfnod 1 neu ystyried cyflwyno cynnig Penderfyniad Ariannol o leiaf wythnos ar ôl cytuno ar Gyfnod 1.⁶³ Mae'r Pwyllgor yn aros am ymateb.

51. Fel y tynnwyd sylw yn y llythyr at y Prif Weinidog, o gofio y gofynnir i'r Senedd gymeradwyo Penderfyniad Ariannol yn dilyn dadl Cyfnod 1, pan fo gwybodaeth ariannol yn annigonol neu'n anghyflawn wrth ei gyflwyno, gallai hyn arwain at y Senedd yn cytuno i neilltuo adnoddau a all godi'n sylweddol wedi hynny. Mae hyn yn destun pryder arbennig i'r Pwyllgor o gofio y gallai canlyniadau ariannol ansicr roi pwysau sylweddol ar gyllidebau sydd eisoes dan bwysau.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell, yn unol â'r materion a godwyd yn ei lythyrau at y Prif Weinidog ar 16 Tachwedd a 19 Rhagfyr 2022, fod y Gweinidog yn darparu ymateb ysgrifenedig i'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad hwn, cyn y ddadl Cyfnod 1.

52. Mae'r costau mwyaf sylweddol a gynhwysir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ymwneud â thaliadau blynyddol tybiedig Llywodraeth Cymru i ffermwyr, sef £278 miliwn dan y cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn y dyfodol. Rydym yn nodi bod y ffigur hwn yn seiliedig ar lefel y cyllid presennol ar gyfer y cynllun taliad sylfaenol a Glastir. Fodd bynnag, nodwn fod y ffermwyr yn cael tua £370 miliwn y flwyddyn drwy PAC, o gynnwys cyllid y cynllun datblygu gwledig, sef oddeutu £100 miliwn. Nodwn safbwynt Llywodraeth Cymru nad oedd cyllid y cynllun datblygu gwledig wedi'i gynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gan nad yw'n daliad uniongyrchol i ffermwyr a bod y cynllun datblygu gwledig yn cefnogi ystod o weithgareddau megis y gwasanaeth Cyswllt Ffermio. Fodd bynnag, mae opsiwn 3 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn

⁶¹ [Llythyr at y Prif Weinidog, 16 Tachwedd 2022](#)

⁶² [Llythyr gan y Prif Weinidog, 7 Rhagfyr 2022](#)

⁶³ [Llythyr at y Prif Weinidog, 19 Rhagfyr 2022](#)

nodi £12 miliwn mewn costau i gefnogi Cyswllt Ffermio. Fodd bynnag, nid yw'n glir beth y mae'r costau eraill sy'n gysylltiedig â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ei gwmpasu yn y Bil.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu dadansoddiad o'r costau sydd wedi'u cynnwys yn Opsiwn 3 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n ymwneud â chyllid cynllun datblygu gwledig, ac y caiff y wybodaeth hon ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddarau yn dilyn trafodion Cyfnod 2.

53. Er ein bod yn falch bod y cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn cael ei gydlunio â'r sector, credwn y gallai hyn fod wedi digwydd cyn cyflwyno'r Bil ac felly y byddai asesiad ariannol y cynllun wedi bod yn fwy cadarn. Serch hynny, gobeithiwn y bydd meini prawf cymhwysedd y cynllun yn cynnig digon o hyblygrwydd i sicrhau bod cynifer â phosibl o fusnesau fferm yng Nghymru yn gwneud cais am y rhaglen. Rydym hefyd yn falch o glywed y bydd strategaeth ymgysylltu gynhwysfawr yn ymwneud â'r cynllun, drwy sioeau amaethyddol, undebau a sianeli cyfryngau perthnasol i godi ymwybyddiaeth.

54. Clywsom fod tua 18,000 o ffermwyr yn cael taliadau drwy'r cynllun presennol allan o 24,000 o fusnesau fferm yng Nghymru. Dywedodd y Gweinidog nad oedd wedi gosod targed ar gyfer y nifer sy'n cymryd rhan yn y cynllun newydd, ond ei bod yn gobeithio na fyddai'n llai na'r nifer bresennol. Er ein bod yn cydnabod y bydd y cynllun yn ceisio gwobrwyo ffermwyr am y camau maent yn eu cymryd, ac felly y bydd y taliadau'n amrywio ar gyfer ffermydd maint gwahanol, rydym yn pryderu am fforddiadwyedd y cynllun, yn enwedig os oes uchafswm ar gyfer y nifer o'r 24,000 o fusnesau fferm sy'n cymryd rhan. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu mwy o wybodaeth am y gwaith modelu a fydd yn cael ei wneud i amcangyfrif cyfanswm y gost flynyddol i ffermwyr oherwydd y nifer wahanol sy'n cymryd rhan yn ôl mathau gwahanol o ffermydd.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn ymgymryd â gwaith modelu i amcangyfrif cost flynyddol y cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy sy'n dibynnu ar y nifer wahanol sy'n cymryd rhan yn ôl mathau gwahanol o ffermydd, ac y caiff y wybodaeth hon ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddarau yn dilyn trafodion Cyfnod 2.

55. Er ein bod yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog na fydd yn cymryd arian oddi ar ffermwyr, mae ansicrwydd enfawr ar gyfer cyllideb Llywodraeth Cymru y tu hwnt i 2025, pan fydd y cyllid sydd wedi'i glustnodi ar hyn o bryd yn dod i ben. Mae cyllideb Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar setliadau cyllido gan Drysorlys EF yn y dyfodol ac yn wahanol i gyllid uniongyrchol yr UE ar gyfer PAC, bydd yn rhaid i'r Gweinidog gystadlu am gyllid amaethyddol drwy broses gyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru.

56. Rydym yn siomedig y bu diffyg ymgysylltu rhwng y Gweinidog a Thrysorlys EF ynghylch setliadau cyllido ar gyfer y polisi hwn yn y dyfodol ac rydym yn cydymdeimlo â rhwystredigaethau'r Gweinidog o gofio ein bod wedi cael profiadau tebyg gyda gwrthodiad Trysorlys EF i ymgysylltu â'r Pwyllgor ar faterion cyllidol sy'n ymwneud â Chymru dros flynyddoedd lawer. Fodd bynnag, rydym yn croesawu'r Ysgrifennydd Gwladol newydd ei benodi am ymdrechion DEFRA i wella lefelau ymgysylltu ac yn gobeithio bod hyn yn ddechrau pennod newydd mewn cysylltiadau rhynglywodraethol ar y mater hwn.

57. Mae'r Pwyllgor yn siomedig bod nifer o gostau heb eu meintioli, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol, tenantiaethau amaethyddol, coedwigaeth, maglau a thrapiau glud, wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Clywsom na fu'n bosibl meintioli rhai costau gan fod cynifer o elfennau anhysbys megis achosion sylweddol o glefydau iechyd anifeiliaid a chymorth economaidd uniongyrchol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn credu y bu nifer o brofiadau blaenorol y gallai'r Gweinidog fod wedi'u defnyddio at ddibenion modelu costau, megis yr achosion o glwy'r traed a'r genau a phandemig COVID, ymhlith eraill.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn ailasesu'r costau heb eu meintioli, ac yn defnyddio profiad blaenorol i ddarparu dadansoddiad sensitifrwydd i ddangos yr ystod bosibl o gostau, ac y caiff y wybodaeth hon ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddarau yn dilyn trafodion Cyfnod 2.

58. Nodwn y bydd yr effaith economaidd ar y sector yn cael ei hasesu ar lefel ranbarthol a sectoraidd fel rhan o waith dylunio'r cynllun newydd. Fodd bynnag, mae'r ffynonellau data i gefnogi'r dadansoddiad hwn eisoes ar gael i'r Gweinidog drwy'r arolwg amaethyddol blynyddol a'r arolwg busnesau fferm blynyddol. Felly, byddai'r Pwyllgor wedi disgwyl i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'n siomedig y disgwylir i ddeddfwriaeth gael ei phasio heb i asesiad effaith economaidd gael ei gwblhau.

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd y Senedd yn cael cyfle i graffu ar yr Asesiad Effaith Economaidd a chyflwyno ei barn.

59. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r gost i'r sector preifat sy'n ymwneud â choedwigaeth sy'n codi o ganlyniad i ychwanegu amodau at drwyddedau newydd fod wedi'i meintioli. Cred y Pwyllgor ei bod yn hanfodol bod Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn asesu effaith deddfwriaeth ar Lywodraeth Cymru a chyrff eraill, yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, ac mae'n siomedig nad yw'r effaith hon wedi'i chynnwys. Er ein bod yn deall bod rhywfaint o amrywiad sy'n gysylltiedig â'r amcangyfrifon hyn, gallai ystod costau ystyrlon fod wedi'i chynnwys i ddangos effaith y Bil ar bob sector.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith i asesu'r gost i'r sector preifat sy'n ymwneud â choedwigaeth ac yn darparu dadansoddiad sensitifrwydd i ddangos yr ystod bosibl o gostau, ac y caiff y wybodaeth hon ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddarau yn dilyn trafodion Cyfnod 2.

60. Mae ystod o fanteision wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n ymwneud â meysydd megis cymorth yn y dyfodol a choedwigaeth sydd heb eu meintioli. Clywsom nad oedd asesiad meintiol o'r manteision yn bosibl ar y pryd o gofio nad yw'r cynllun wedi'i gwblhau eto. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys yn yr adolygiad ôl-weithredu er mwyn sicrhau bod amcanion y Bil yn cael eu cyflawni yn unol â'r disgwyliadau. Mae hyn yn ailadrodd argymhellion blaenorol y Pwyllgor sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiadau ôl-weithredu o'r holl Filiau sydd gerbron y Senedd fel arfer safonol, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch sut y caiff gwerth am arian ei asesu.⁶⁴

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell, fel rhan o'r adolygiad ôl-weithredu, fod y Gweinidog yn meintioli'r manteision sy'n codi o'r Bil.

61. Nodwn gost sylweddol y system TG newydd a fyddai'n cael ei datblygu ar gyfer ceisiadau ar-lein a rheoli contractau, sef £35.5 miliwn. Er ein bod yn deall nad yw'r asesiad o'r opsiynau wedi'i gwblhau eto, rydym yn cefnogi'r opsiwn a ffefrir gan y Gweinidog i wella'r system bresennol ac adeiladu arni. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod ei bod yn bosibl nad yw'r system bresennol yn gydnaws â'r gofynion ar gyfer y cynllun newydd.

Argymhelliad 8. Lle y bo'n bosibl, dylid cael synergedd rhwng y system TG bresennol a'r un newydd a gaiff ei datblygu i gefnogi ceisiadau ar-lein a rheoli contractau o dan y Bil. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn rhoi rhagor o fanylion am gostau'r system ar ôl i'r asesiad o'r opsiynau gael ei gwblhau, ac y caiff y wybodaeth hon ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddarau yn dilyn trafodion Cyfnod 2

62. Rydym yn pryderu bod y gost i ffermwyr sy'n cwblhau ffurflen gais 50 y cant yn uwch na chynnal y status quo, oherwydd yr angen i ddarparu data sy'n gysylltiedig â chanlyniadau'r cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy megis cyflwr cynefinoedd neu ddefnydd carbon. Credwn y gallai faint o adnoddau sydd eu hangen i ffermwyr ddarparu a monitro data o'r fath, yn enwedig i ffermydd llai, eu hatal rhag gwneud cais am y cynllun. Rydym yn gwerthfawrogi'r sicrwydd gan y Gweinidog, gan fod Llywodraeth Cymru eisoes â llawer o ddata ar fusnesau fferm, mai'r nod fydd i ffermwyr wirio gwybodaeth lle y bo'n bosibl er mwyn lleihau'r fiwrocratiaeth. Mae'r Pwyllgor yn credu y bydd gwybodaeth wedi'i llenwi ymlaen llaw a gwneud

⁶⁴ Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar oblygiadau ariannol y Bil Addysg, Drydyddol ac Ymchwil, Argymhelliad 10.

y system mor syml â phosibl yn sylfaenol i'r nifer sy'n cymryd rhan. Rydym yn falch hefyd y bydd cymorth ar gael i ffermwyr gyda'r broses ymgeisio, drwy ailffocysu Cyswllt Ffermio a'r gwasanaeth cysylltwyr fferm.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod proses ymgeisio'r cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy i ffermwyr neu fusnesau fferm yn hawdd ei defnyddio ac yn lleihau'r adnoddau sydd eu hangen i wneud cais am y rhaglen drwy gysyniadau megis gwybodaeth wedi'i llenwi ymlaen llaw.

63. O ganlyniad i'r Bil, bydd CNC yn ysgwyddo tua £2.8 miliwn mewn costau ychwanegol. O gofio'r pwysau cyllidebol ar bob corff yn y sector cyhoeddus, rydym yn pryderu am allu CNC i amsugno'r costau hyn yn ei gyllideb bresennol ac a yw costau o'r fath yn gynaliadwy. Felly, byddem yn croesawu eglurhad a fydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ychwanegol i gefnogi CNC i dalu'r costau ychwanegol hyn.

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog roi eglurhad mewn perthynas â'r £2.8 miliwn mewn costau ychwanegol a ysgwyddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac a fydd cyllid ychwanegol ar gael gan Lywodraeth Cymru neu a ddisgwylir i Cyfoeth Naturiol Cymru amsugno'r costau hyn yn ei gyllideb bresennol.